| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **20 HYDREF, 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed W. Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol gan ei fod yn rheidrwydd gwneud hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ac mewn unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor pan fo newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.

1.3 Ers cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2011 mae sawl newid wedi digwydd sydd wedi cael effaith ar y cydbwysedd rhwng y grwpiau gwleidyddol.

1.4 Cynhaliwyd isetholiad Ward Glyder, Bangor ar 21 Gorffennaf, 2011 pryd yr etholwyd y Cynghorydd Elin Walker Jones aelod o Grŵp Plaid Cymru ar y Cyngor.

1.5 Ar ddechrau mis Awst derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Dewi Lewis, aelod dros Ward Penrhyndeudraeth.

1.6 Cynhaliwyd isetholiadau yn Wardiau Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog a Phenrhyndeudraeth ar 29 Medi, 2011 pryd yr etholwyd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies aelod o Grŵp Plaid Cymru dros Ddiffwys a Maenofferen a'r Cynghorydd Gareth Thomas, aelod o Grŵp Plaid Cymru dros Benrhyndeudraeth ar y Cyngor.

1.7 Golyga hyn fod gan Grŵp Plaid Cymru mwyafrif y seddau ar y Cyngor ac o ganlyniad mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 38 |
| Annibynnol | 16 |
| Llais Gwynedd | 12 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 4 |
| Llafur | 4 |
| Aelod Unigol | 1 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma’r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â’r nifer o’r holl seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o’r seddau ar y pwyllgor â’r nifer o seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.4 Mae angen i’r Cyngor cymryd i ystyriaeth y newid i’r cydbwysedd rhwng y grwpiau gwleidyddol wrth ddyrannu seddau ar bwyllgorau’r Cyngor gan fod gan Grŵp Plaid Cymru bellach mwyafrif o ran nifer aelodau’r Cyngor ac felly bod paragraff 2.2(b) yn berthnasol.

2.5 Effaith y newid i’r cydbwysedd gwleidyddol ar seddau’r pwyllgorau yw bod y Grŵp Annibynnol yn rhoi seddau i Grŵp Plaid Cymru ar Fwrdd y Cyngor, Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, Pwyllgor CYSAG, Pwyllgor Pensiynau ac un sedd ar y Pwyllgor Cynllunio.

2.6 Bod Grŵp Llais Gwynedd yn rhoi seddau i Grŵp Plaid Cymru ar y Prif Bwyllgor Craffu, Pwyllgor Craffu Amgylchedd, Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Apêl Cyflogaeth ac un sedd ar yr Is-bwyllgor Iaith.

2.7 Bod Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi sedd ar y Pwyllgor Pensiynau i Grŵp Plaid Cymru.

2.8 A bod y Grŵp Llafur yn rhoi un sedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i Grŵp Plaid Cymru. (gweler **Atodiad A**)

2.9 Yn unol â threfn y Cyngor hwn gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhelliad i’r Cyngor Llawn.

2.10 Cyfarfu’r Grŵp Busnes ar 11 Hydref, 2011.

2.11 Trafodwyd y newid i seddau’r pwyllgorau gan y Grŵp Busnes a phenderfynwyd argymell i’r Cyngor Llawn beidio newid y seddau ar y pwyllgorau gan mai dim ond chwech mis sydd ar ôl o oes y Cyngor presennol.

2.12 Er mwyn gweithredu argymhelliad y Grŵp Busnes rhaid iddo gael ei dderbyn gan y Cyngor heb i unrhyw aelod bleidleisio yn ei erbyn.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdod Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 mae yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau pwyllgorau er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod yn cael ei adlewyrchu gan y cadeiryddiaethau hynny.

3.2 Y drefn yn y Cyngor hwn yw dyrannu is-gadeiryddiaethau pwyllgor hefyd yn ôl cydbwysedd gwleidyddol ac i Grŵp Busnes y Cyngor drafod y trefniadau ymlaen llaw.

3.3 Yn unol â rheol 6.2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen)(Cymru) 2007 ni all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu na chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

3.4 Mae'r newid i gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi cael ychydig o effaith ar gadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau y prif bwyllgorau gyda Grŵp Plaid Cymru yn ennill un is-gadeiryddiaeth. (gweler **Atodiad B**)

3.5 Yng nghyfarfod y Grŵp Busnes a gynhaliwyd ar 11 Hydref atgoffwyd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol bod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn ei gyfarfod dyddiedig 11 Gorffennaf, 2011 wedi penderfynu cadw is-gadair Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn wag ac y byddai modd cynnig yr is-gadair i Grŵp Plaid Cymru.

3.6 Cytunwyd gan y Grŵp Busnes argymell i'r Cyngor Llawn i barchu penderfyniad Pwyllgor Ardal Meirionnydd i adael is-gadair y pwyllgor yn wag.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

i. beidio newid dyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 2.5 - 2.8 uchod ond gadael aelodaeth y pwyllgorau fel ag y maent am weddill oes y Cyngor presennol

ii. barchu penderfyniad Pwyllgor Ardal Meirionnydd i adael is-gadeiryddiaeth y pwyllgor yn wag a pheidio dyrannu is-gadair i Grŵp Plaid Cymru.

**ATODIAD A**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Prif Bwyllgor Craffu | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 8 | 3 | 3 | 1 | | |
| Amgylchedd | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Plant a Phobl Ifanc | 8 | 3 | 3 | | 1 | |
| Gofal | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 8 | 3 | 2 | | 1 | 1 |
| Cynllunio | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 6 | 3 | 2 | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 0 | 1 | 1 | |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **80** | **30** | **22** | **8** | **8** | **1** | **149** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 1 | 1 | 0 | 1 | |
| CYSAG | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | | 1 | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 1 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 | 2 | 1 | 1 | 0 | |
| Iaith | 4 | 2 | 1 | | | |
| **Ennill / Colli** | **+12** | **-5** | **-5** | **-1** | **-1** | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **106** | **39** | **29** | **10** | **10** | **2** | **196** |

**Atodiad B**

## Dyrannu Cadeiryddiaethau ac Is-gadeiryddiaethau 2011 - 2012

**Cadeirydd y Cyngor: John Gwilym Jones**
**Is-gadeirydd y Cyngor: R. Leonard Jones**

| | **Pwyllgor**<br>**Committee** | **Cadeirydd**<br>**Chairperson** | **Is-gadeirydd**<br>**Vice-chairperson** |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor<br>Council Board | **Plaid Cymru**<br>**Dyfed Wyn Edwards** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Prif Bwyllgor Craffu<br>Principal Scrutiny Committee | **Democratiaid Rhyddfrydol**<br>**Liberal Democrats** | **Annibynnol / Independent** |
| 3 | Plant a Phobl Ifanc<br>Children and Young People | **Annibynnol / Independent** | **Llafur / Labour** |
| 4 | Amgylchedd<br>Environment | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 5 | Gofal<br>Care | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 6 | Datblygu<br>Development | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Archwilio<br>Audit | **Annibynnol / Independent** | **Llais Gwynedd** |
| 8 | Cynllunio<br>Planning | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 9 | Trwyddedu Canolog<br>Central Licensing | **Annibynnol / Independent** | **Plaid Cymru** |
| 10 | Pensiynau<br>Pensions | **Llafur / Labour** | **Plaid Cymru** |
| 11 | Adnoddau Dynol<br>Human Resources | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol**<br>**Liberal Democrats** |
| 12 | Apelau Cyflogaeth<br>Employment Appeals | **Plaid Cymru** | **Annibynnol / Independent** |
| 13 | Ardal Arfon<br>Arfon Area | **Plaid Cymru** | **Annibynnol / Independent** |
| 14 | Ardal Dwyfor<br>Dwyfor Area | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Ardal Meirionnydd<br>Meirionnydd Area | **Plaid Cymru** | |